

PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 11 GORFFENNAF 2018

Yn
bressenol: Cynghorydd Walker(Cadeirydd)

Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Hudson,
Lister, Mackie a/ac Murphy

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Roedd gan yr Aelodau gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

12 : COFNODION

Llofnodwyd Cofnodion 20 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

13 : UCHELGAIS DIGIDOL CAERDYDD - I DDILYN

Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb yn ei Gylch Gorchwyl i graffu ar Uchelgais Digidol y Cyngor. Roedd yr eitem, felly, yn gyfle i'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith a wnaed gan y Cyngor o ran digideiddio a'r strategaeth ddigidol newydd arfaethedig. Dylai'r Pwyllgor hefyd fonitro'r cynnydd wrth symud ymlaen ar gyfer rhaglen waith 2018/19.

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad;
- Isabelle Bignall, Prif Swyddog Digidol

Esboniodd y Cynghorydd Weaver fod hon yn strategaeth bwysig wrth symud ymlaen gan adlewyrchu Uchelgais Prifddinas y Cyngor. Mae Prif Swyddog Digidol newydd wedi'i phenodi i ddatblygu'r rhaglen hon a datblygu'r dyheadau digidol a amlinellwyd yn yr Uchelgais Prifddinas. Roedd y Cynghorydd Weaver yn falch o'r strategaeth a thynnodd sylw at yr egwyddorion allweddol a amlinellwyd, gan nodi y byddai cynlluniau gweithredu yn dilyn pe byddent yn cael eu cymeradwyo.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Daith Ddigidol Caerdydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Digidol am y cyflwyniad gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at y costau, a gofynnwyd a fyddai'r arbedion yn cael eu cyflawni drwy ddatblygu'r strategaeth.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod adnoddau presennol yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i weithredu'r swyddogaeth gwasanaethau cwsmeriaid. Roedd tri thîm wedi'u dwyn ynghyd i gyflawni'r Strategaeth Ddigidol ar gyfer y rhaglen Uchelgais Prifddinas. Byddai'r Bwrdd Adolygu Buddsoddiad (BAB) yn mynd i'r afael â Chynlluniau Busnes Unigol. Hyd yn hyn nid oedd unrhyw swm penodol wedi'i osod yn erbyn yr arbediad digidol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cynnig i gyflwyno Hybrid Mail, proses sy'n galluogi defnyddwyr i anfon post yn ddiogel o'u cyfrifiaduron i ganolfan ddosbarthu lle bydd yn cael ei becynnu a'i wneud yn barod i'w ddosbarthu gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, yn cael ei ystyried. Byddai hyn yn arbed costau argraffu a phostio ac ni fyddai'n effeithio ar staff.

Cafodd y Pwyllgor wybod am y capasiti adnodd C2C a sut y cafodd y galwadau eu categorio. Ystyriwyd bod rhai o'r galwadau hyn yn isel eu gwerth a gellid ymdrin â hwy drwy Ap Caerdydd.

Roedd rhai Aelodau o'r Pwyllgor wedi cymryd rhan mewn rhagbrofion cyn cyhoeddi Ap Caerdydd cyn ei lansio, ac roeddent o'r farn bod ei dair swyddogaeth yn dal i fod yn gyfyngedig. Roedd yn hanfodol bod cymaint o wasanaethau â phosibl yn cael eu cefnogi drwy'r Ap, a oedd yn allweddol i ddinasyddion. Nodwyd hefyd bod yr Ap Parcio yn gweithredu fel swyddogaeth ar wahân.

Cynghorwyd y Pwyllgor y byddai'r Ap Parcio yn cael ei ymgorffori yn swyddogaeth Ap Caerdydd, ond byddai'n cael ei gadw ar wahân ar gyfer defnyddwyr a oedd yn byw y tu allan i'r ddinas. Roedd y map ar waith ar gyfer datblygu'r Ap yn barhaus, gyda phriffyrdd, tyllau a goleuadau stryd yn wasanaethau trafodaethol erbyn diwedd y flwyddyn.

Roedd yr Aelodau'n pryderu nad oedd ffonau smart na'r rhyngwyd ar gael i rai pobl, a gofynnwyd iddynt sut yr oeddent yn cael cymorth yn yr oes ddigidol hon.

Tawelwyd meddwl y Pwyllgor gan fod Diwrnodau Cynhwysiant Digidol yn cael eu cynnal drwy'r Hybiau er mwyn cyrraedd pobl nad oedd ganddynt gysylltiad digidol a rhyngweithio â gwasanaethau allgymorth.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am gyflwyno'r rhith-gynorthwydd "ChatBot" y gellid ei gyflwyno i ymdrin ag ymholiadau ynghylch gwaredu gwastraff i ddechrau. Byddai hyn yn agor sianelau ychwanegol i ddinasyddion, costau is, yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn darparu mynediad 24 awr. Yn ogystal, roedd system gwymplen ar gael i gysylltu â chynghorwr yn ystod oriau busnes sy'n dod yn weithredol os na ellid ateb y cwestiynau'n rhithwir.

Gofynnodd yr Aelodau a allai'r Ap wybod pryd y byddai cynghorydd yn logio galwad ac yn cael adborth. Esboniodd swyddogion ar hyn o bryd, o ganlyniad i'r nifer uchel o alwadau, fod angen mwy o wybodaeth er mwyn nodi Cynghorwyr ac y byddai hyn yn cael sylw yn y tymor hir.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at amrywiaeth o faterion yn ymwneud â phroblemau TGCh a wynebier gan Aelodau. Colli mynediad i system ymholiadau'r Aelodau, problemau gyda ffonau symudol ddim yn cael eu cefnogi gan Microsoft 365, technoleg caban

ddim yn gweithio gan arwain at golli casgliadau gwastraff, ac E-lofnodion heb dempled digidol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am "Weithdy Aelodau Cysylltiol" ac awgrymwyd bod y Cynghorydd Ashley Lister yn mynychu'r digwyddiad ac yn datrys y mater gydag E-lofnodion. Cydnabuwyd bod problemau ar hyn o bryd gan nad oedd Microsoft 365 yn cefnogi'r ffonau ac roedd hyn yn cael sylw. Roedd materion eraill wedi'u nodi gyda Bartech, yn cefnogi dyfeisiau'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw Cymunedol, ac roedd hyn hefyd yn cael ei ddadansoddi ynghyd â newid llwyr mewn diwylliant o ran sut yr oedd gwasanaethau'n cael eu darparu.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at breifatrwydd data, risgiau effeithlonrwydd a sut yr ymdriniwyd â meintiau mawr o ddata. Ar gyfer y meintiau mawr o ddata a dderbyniwyd gan Gyngorwyr nid oedd hidlydd er mwyn monitro'r wybodaeth. Felly, er mwyn i'r Cyngor weithredu'n fwy effeithlon, roedd yn hanfodol bod technoleg smart yn cael ei rhoi ar waith i fonitro faint o ddata sy'n cael ei dderbyn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod egwyddorion y strategaeth yn allweddol, yn arbennig "Mae profiad cwsmeriaid yn dod gyntaf".

Cynghorwyd y Pwyllgor y byddai gweithdrefnau effeithlonrwydd yn cael eu hystyried i gefnogi gwelliannau fel rhan o'r gweithredu ar y Strategaeth Ddigidol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

14 : RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF BAND B: CAPASITI A LLYWODRAETHU - I DDILYN

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth, Sgiliau - y Cynghorydd Sarah Merry;
- Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Addysg

Eglurodd y Cadeirydd mai Cylch Gorchwyl y Pwyllgor oedd craffu ar Reolaeth Ariannol, Eiddo'r Cyngor, Comisiynu a Chaffael, a defnydd y Cyngor o Adnoddau Dynol. Ar y sail hon y mae gennym gyfle i graffu cyn gwneud penderfyniadau ar gynlluniau Band B arfaethedig y Cyngor o dan Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif, yn benodol:

- Ymgyswddo â'r ddau opsiwn ariannu sydd ar gael i'r Cyngor i ddarparu'r Rhaglen Band B;
- Ystyried trefniadau uwch reoli diwygiedig ar gyfer arwain rhaglen datblygu ystad ysgolion y Cyngor; a hefyd
- Ystyried trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhaglen.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Merry wneud datganiad.

Esboniodd y Cynghorydd Merry fod angen gwariant cyfalaf o £284M i'r Ystadau Ysgolion. Roedd cyfeiriad y prosiect a'r ffordd y caiff y rhaglen hon ei rheoli yn

hanfodol i helpu'r Ystâd Ysgolion i symud ymlaen a dileu'r risgiau o fewn yr amserlen briodol.

Eglurodd Nick Batchelar, yn dilyn y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ym mis Hydref 2017, ei bod yn hanfodol meddu ar y sgiliau cywir i gefnogi blaenoriaethau a gofynion Band B.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Roedd yr Aelodau'n bryderus ynghylch swydd y Landlord Corfforaethol a gofynnwyd am eglurhad a fyddai'r swydd yn rhan o'r wasanaeth Addysg.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Addysg at wahanol swyddogaethau'r swydd a lle'r oedd cyfrifoldeb yn eistedd ar bob cam. Cyfeiriwyd yr Aelodau at adroddiad ARUP a gynhwyswyd yn eu papurau ar dudalen 81 gan nodi'r Crynodeb o'r pedwar cyfnod allweddol mewn cylch bywyd arferol datblygiad ysgol.

- Cyfnod Angen
- Cyfnod Cynllun
- Cyfnod Cyflawni
- Cyfnod Gweithredu

Trafododd y Pwyllgor y camau, gan edrych ar y sgiliau penodol sydd eu hangen ar gyfer y swydd. Roedd angen arbenigedd cryf ar ochr y cleient, gyda gwybodaeth am Wasanaethau Eiddo/Gwasanaethau Adeiladu yn cysylltu â'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at fanyleb y swydd, a ddylai fod ag ymrwymiad clir a dealltwriaeth o sut y dylai ysgolion yn y dyfodol allu bodloni gofynion poblogaeth sy'n tyfu.

Parhaodd y Pwyllgor i ofyn pa Gyfarwyddiaeth oedd y sefyllfa o'i mewn ac roedd o'r farn y dylai swyddogaeth eiddo'r Cyngor fod yn bennaf gyfrifol am reoli prosiectau ysgolion tra'n harneisio gwybodaeth am ofynion ysgolion o'r Gyfarwyddiaeth Addysg.

Cynghorwyd yr Aelodau y dylai'r rôl fod yn gallu nodi a chefnogi Llesiant ac ymgysylltu ar lefel strategol, gyda'r gallu i nodi dalgyloedd yn y dyfodol i adeiladu ysgolion ar gyfer y dyfodol wedi'u llywio gan ddibenion Addysg nid Adeiladu a Dylunio.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at swydd y Landlord Corfforaethol ac roedd o'r farn y byddai'r swydd hefyd yn gwneud gwaith ar gyfer Cyfarwyddiaethau eraill.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y prosiect hwn yn cael ei lywio gan welliant Addysg a'r hyn sydd ei angen ar ysgolion mewn meysydd penodol, ac felly bod arbenigwr o fewn Addysg yn hanfodol.

Holodd y Pwyllgor am y cyllid ar gyfer y swydd newydd a'r costau cysylltiedig.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at baragraff 44 o'r papurau, goblygiadau ariannol: Y gofynion o ran adnoddau a argymhellir er mwyn darparu'n effeithiol y rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain ganrif, Adnewyddu Asedau, yr ysgolion sydd eu hangen o ganlyniad i'r

Cynllun Datblygu Lleol a chynlluniau cyfalaf eraill sy'n cael eu cynnal mewn perthynas â'r ystâd ysgolion. Felly, byddai angen i'r swydd hon gael ei hariannu o adnoddau refeniw Cynllun Trefniadaeth Ysgolion presennol, fel rhan o fodel ariannol cyffredinol y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion. Byddai'r Cyfarwyddwr Addysg, mewn partneriaeth â'r Pennaeth Cyllid, yn gweithio gyda chyfarwyddiaethau i sicrhau y byddai'r cyllid angenrheidiol yn gynrychioliadol o lefel y gwaith a wneir. Byddai hyn yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau ariannol presennol yn ogystal â nodi adnoddau ariannu priodol er mwyn sicrhau bod y model cyffredinol yn parhau i fod yn fforddiadwy.

Holodd Aelodau'r Pwyllgor am oblygiadau cyllid Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r llwybr Cyfalaf oedd y penderfyniad a oedd yn cael ei gymryd ymlaen gan y Cabinet. Ystyriwyd addasrwydd y cynlluniau, gyda nifer o brosiectau yn dal i fod yn agored i'w hadolygu.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at y model cyllid corfforaethol a gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y cyfrifiadau.

Eglurwyd i'r Pwyllgor fod ychydig o ansicrwydd mewn perthynas â'r Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol. Maint yr ysgolion a'u cysondeb ynghyd â nifer yr ysgolion sydd eu hangen. Roedd amserlenni ar gyfer cyflawni hefyd yn cael eu hystyried, gan fod problemau wedi cael eu nodi mewn rhai ysgolion. .

Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cael ei symud ymlaen pan oedd Llywodraeth Cymru yn ei hannog.

Hysbyswyd yr aelodau o'r effaith y gallai'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol ei chael ar ddarparu ysgolion ac ar addasrwydd y cynlluniau. Byddai'r Cabinet yn ailystyried y sefyllfa o ran y Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol, pe na bai'r cynigion presennol yn llwyddiannus.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

15 : Y FFORDD YMLAEN

16 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

12 Medi 2018

Daeth y cyfarfod i ben am 6.07 pm